# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 11 Tachwedd 2019

Amser: 12.45

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddArchwilio@cynulliad.cymru

## (Rhag-gyfarfod preifat)

(12.45 - 13.00)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.00)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(13.00)

### 2.1 Cymorth Ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer Busnesau Llythyr gan Lywodraeth Cymru (31 Hydref 2019)

(Tudalennau 1 - 8)

## 3 Ffordd liniaru'r M4: Trafod yr ohebiaeth gan Lywodraeth Cymru

(13.00 - 13.30) (Tudalennau 9 - 22)

PAC(5)-28-19 Papur 1 - Llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru (8 Hydref 2019)

## 4 Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llywodraeth Cymru

(13.30 - 15.00) (Tudalennau 23 - 76)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

PAC(5)-28-19 Papur 2 - Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19

PAC(5)-28-19 Papur 3 - Papur gan yr Ysgrifennydd Parhaol ar Fenthyciadau a buddsoddiadau

PAC(5)-28-19 Papur 4 - Papur gan yr Ysgrifennydd Parhaol ar y Cyfarwyddwyr Anweithredol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

PAC(5)-28-19 Papur 5 – Papur gan yr Ysgrifennydd Parhaol ar y Grant Cyfalaf Sipsiwn a Theithwyr

PAC(5)-28-19 Papur 6 – Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Arferion Cyllidebol Seland Newydd

Shan Morgan – Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru

Peter Kennedy – Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Llywodraeth Cymru

David Richards – Cyfarwyddwr Moeseg a Llywodraethu, Llywodraeth Cymru

Natalie Pearson – Pennaeth Ymgysylltu a Datblygu Sefydliadol, Llywodraeth Cymru

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

(15.00)

Eitemau 6 a 7 ac Eitem 1 o gyfarfod 18 Tachwedd 2019

## 6 Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llywodraeth Cymru

(15.00 – 15.45)

David Richards – Cyfarwyddwr Moeseg a Llywodraethu, Llywodraeth Cymru

Jeff Farrar – Cyfarwyddwr Anweithredol

Ann Keane – Cyfarwyddwr Anweithredol

## 7 Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(15.45 – 16.00)

Eitem 2.1

**Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol**
**Economy, Skills and Natural Resources Group**

**Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

31 Hydref 2019

Annwyl Gadeirydd,

Rwy'n ymateb i'ch llythyr dyddiedig 1 Hydref lle'r oeddech yn gofyn am ragor o wybodaeth ar ôl imi anfon llythyr atoch ar 2 Medi.

Byddaf yn ymdrin â phob mater yn ei dro.

**Dawnus**

Roedd y cynllun i adfer Dawnus yn cynnwys nifer o elfennau a oedd â'r nod o roi sylfaen ddiogel i'r busnes. Bu swyddogion yn monitro'r cynnydd a wnaed gan y busnes ar sail yr amcanion adfer craidd hyn.

Goruchwyliwyd y broses hon gan swyddogion a chan fanc y cwmni, HSBC, ac aethant ati ar y cyd â'r ymgynghorwyr annibynnol, Grant Thornton a Prompt Interim, i fonitro'r cynnydd a oedd yn cael ei wneud ar y cynllun i adfer Dawnus er mwyn sicrhau bod tystiolaeth ar gael i ddangos bod y gweithgareddau allweddol yn y cynllun wedi cael eu cyflawni, yn eu plith:

1) lleihau costau rheoli a chostau gorbenion gweithredu;
2) ailstrwythuro ac aildrefnu cyfarwyddiaethau rhanbarthol a oedd yn tanberfformio (yn enwedig rhanbarth De-orllewin Lloegr, a oedd o dan reolaeth tîm De Cymru);
3) penodi rheolwr gyfarwyddwr a rheolwyr rhanbarthol newydd;
4) mwy o oruchwyliaeth fanwl ar brosesau tendro;
5) gostyngiad sylweddol mewn costau gorbenion;
6) cytuno ar drefniadau amser-i-dalu gyda CThEM i gynorthwyo gyda llif arian y busnes;
7) gwerthu'r asedau gwaredadwy a oedd gan y busnes.

Roedd swyddogion yn hyderus bod cynnydd sylweddol yn cael ei wneud ar agweddau eraill ar y cynllun adfer, gan gynnwys: ad-drefnu sylfaen gwsmeriaid Dawnus ym marchnad y DU; mynd ati i wneud cyfran uwch o lawer o waith yn y sector cyhoeddus yn hytrach nag yn y sector preifat; addasu'r hyn yr oedd y busnes yn ei gyflenwi, er mwyn canolbwyntio ar ei waith craidd, sef cyflawni prosiectau seilwaith; a throi cefn ar ragor o ddatblygiadau preswyl / adeiladu.

Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 02920 82 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Mae'n bwysig cydnabod y byddai'r agweddau hyn ar y cynllun adfer yn cymryd amser i weithio ar draws y busnes ac na fyddai modd eu cyflawni ar unwaith.

Un o elfennau allweddol y cynllun adferoedd y brys yr oedd refeniw a gynhyrchir am waith hanesyddol / hen waith /gwaith a oedd wrthi'n cael ei wneud ac a oedd yn destun dadl oddi wrth drydydd parti.

Roedd Dawnus yn cael anawsterau yn hynny o beth ac roedd hynny'n cael effaith andwyol ar berfformiad y busnes. Defnyddiwyd ymgynghorwyr annibynnol, Naismith (cynghorwyr arbennig ar adennill asedau), i roi cyngor ar gael taliadau am waith a oedd wrthi'n cael ei wneud ac a oedd yn destun dadl, a chyngor hefyd ynghylch a fyddai modd casglu'r taliadau hynny'n gynt. Cafodd y strategaethau talu eu trafod a'u cytuno gyda Naismith.

Roedd rhwystrau annisgwyl, y tu allan i reolaeth y busnes, a gyfrannodd at fethiant y busnes yn y pen draw, gan gynnwys cael gwared ar yswiriant credyd o'r gadwyn gyflenwi (gan arwain at daliadau pro-forma, at brynu deunyddiau ymlaen llaw, a chyfyngu ar y risgiau sy'n wynebu'r gadwyn gyflenwi ar ôl cyfnod hir o brofi trafferthion). Roedd hyn, ynghyd ag anawsterau mawr wrth ddechrau ar gontract sylweddol a enillwyd dramor, a'r anawsterau a gafwyd dros amser hir wrth geisio cael taliadau am waith hanesyddol / hen waith / gwaith a oedd wrthi'n cael ei wneud ac a oedd yn destun dadl, yn golygu ei bod yn anodd iawn i'r busnes barhau i fasnachu.

O ran deialog rhwng adrannau Llywodraeth Cymru (LlC) mewn perthynas â hyfywedd Dawnus yng nghyd-destun prosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif, mae'r prosiect hwn yn cael ei gyllido drwy LlC ond yn cael ei weinyddu, ei gaffael a'i gyflawni gan awdurdodau lleol Cymru.

Ni fu unrhyw gyfathrebu rhwng LlC a chyrff llywodraeth leol ynglŷn â darparu'r benthyciad masnachol. Dyna sy'n digwydd fel arfer, a hynny am y rhesymau a ganlyn:

1) Gallai rhyddhau unrhyw wybodaeth i sefydliadau sy'n gleientiaid (caffael yn y sector cyhoeddus) gael effaith negyddol ar eu prosesau gwneud penderfyniadau pan fo'r cwmni'n tendro am waith newydd posibl, neu gallai effeithio ar ba mor brydlon y telir am waith sy'n cael ei wneud eisoes. Mae hyn yn golygu bod risg o effeithio'n andwyol ar lif arian y busnes.
2) Os gwelir bod LlC wedi darparu gwybodaeth sydd wedi effeithio ar y cwmni (gweler pwynt 1), gallai hynny olygu y byddai LlC yn wynebu achos cyfreithiol am gael effaith negyddol, drwy amryfusedd ar berfformiad y cwmni / y broses dendro;
3) Cafodd y cymorth ei roi i'r sefydliad ar sail fasnachol / gyfrinachol. Pe byddai swyddogion wedi rhyddhau gwybodaeth, gellid ystyried bod hynny'n groes i'r rheolau diogelu data neu i godau ymddygiad y sector cyhoeddus.
4) Wrth ymateb i dendrau ac wrth i Gleientiaid / y Sector Cyhoeddus gynnal prosesau diwydrwydd dyladwy ar gynigwyr, dylid gwneud hynny ar sail debyg am debyg a dylid edrych ar ofynion y tendr, yn hytrach nag ar ffactorau ehangach.

Yn fyr, ni ddylai swyddogion LlC fod mewn sefyllfa o ddarparu gwybodaeth sydd y tu allan i gwmpas yr ymarfer tendro i sefydliadau tendro (boed yn y sector cyhoeddus neu'r sector preifat), a allai fod yn andwyol mewn unrhyw ffordd i gyfleoedd y sefydliad sy'n cyflwyno cynnig.

Dylai fod gan bob corff caffael ei brosesau diwydrwydd dyladwy ac asesu risg ei hun, a dylai bwyso a mesur pob cynnig a gyflwynir am dendr ar sail cryfderau a gwendidau'r cynnig hwnnw yn unol â'i gasgliadau ei hun ar ôl cynnal y broses diwydrwydd dyladwy ac asesu risg. Gallai datgelu gwybodaeth ychwanegol o drydedd ffynhonnell, LlC yn yr achos hwn, olygu y gallai'r sefydliad sy'n cyflwyno cynnig fod yn wynebu her gyfreithiol.

Mae gan gyrff y sector cyhoeddus / awdurdodau lleol eu gweithdrefnau eu hunain ar gydymffurfiaeth ac ar gyfer craffu ar ddiwydrwydd dyladwy yng nghyd-destun asesu risg wrth gaffael gwasanaethau. Ni ddylai’r broses hon fod yn ddibynnol ar gael gwybodaeth sy'n ychwanegol i'r hyn a ofynnwyd amdani oddi wrth gyrff eraill er mwyn asesu bod y cynnig yn bodloni gofynion y tendr.

Erbyn mis Mai 2019, roedd £2m o arian y sector cyhoeddus wedi'i adfer o Dawnus, gyda £1.4m yn ddyledus. Efallai yr hoffai'r Pwyllgor nodi bod swyddogion bellach wedi adennill £860,325 o gronfeydd y sector cyhoeddus. Bellach mae balans o £539,675 heb ei dalu ar y benthyciad. Bydd swyddogion yn parhau i weithio gyda'r gweinyddwr i geisio adennill y cyllid sy'n weddill yn y sector cyhoeddus.

**<u>GRH Food Company</u>**

O dan reolau'r Rhaglen Datblygu Gwledig, mae'n rhaid i'r Asiantaeth Dalu (h.y. LlC) gwblhau ei hasesiad o'r prosiect a dilyn y prosesau diwydrwydd dyladwy angenrheidiol cyn cynnig contract grant i fuddiolwyr. Yn achos GRH, cynhaliwyd y broses diwydrwydd dyladwy a'r arfarniad ariannol manwl ym mis Mai 2017. Roedd sefyllfa ariannol GRH yn gadarn byd hynny, a dyfarnwyd y grant cysylltiedig ym mis Awst 2017.

Ar ôl i gontract gael ei ddyfarnu, mae buddiolwyr yn cyflwyno hawliadau am ôl-daliadau ar gyfer gwariant cymwys. Mae talu hawliadau o'r fath yn ofynnol o dan y contract, ar ôl i’r Comisiwn Ewropeaidd bennu camau gweinyddol i sicrhau bod costau'n rhai cymwys. Roedd y taliadau a wnaed i GRH yn 2018/2019 yn gysylltiedig â gwariant a dynnwyd ar gyfer contract 2017. Mae manylion y taliadau a hawliwyd a'r dyddiad y'u talwyd yn ystod y cyfnod hwnnw i'w gweld isod:

| | **Gwerth** | **Dyddiad derbyn** | **Dyddiad talu** |
|---|---|---|---|
| **Hawliad 1 –** | £ 496,507.41 | 16/05/18 | 04/07/18 |
| **Hawliad 2** – | £1,062,166.82 | 16/01/19 | 04/02/19 |

**<u>Jistcourt</u>**

Roedd Band Datblygu Cymru (BDC) – a Cyllid Cymru o'i flaen – wedi bod yn gweithio gyda Jistcourt ers 2016. Rhoddwyd y benthyciad gwreiddiol o £1.1 filiwn iddo ym mis Ionawr 2016 er mwyn i'r rheolwyr fedru prynu rhan o'r cwmni. Cafodd y benthyciad hwnnw ei ad-dalu'n llawn.

Manteisiwyd ar fenthyciad arall o £250,000 ym mis Medi 2018 er mwyn darparu cyfalaf gweithio. Roedd BDC yn gwybod bod nifer o gontractau Jistcourt yn rhai gyda chwsmeriaid yn y sector cyhoeddus; fodd bynnag, rhoddwyd y benthyciad er mwyn darparu cyfalaf gweithio cyffredinol yn hytrach na darparu cyllid i gefnogi prosiect penodol. Gan fod BDC yn dra chyfarwydd â'r busnes eisoes, prin fu'r cyswllt â LlC yn ystod proses arfarnu'r buddsoddiad, a

byddai'r buddsoddiad wedi cael ei gofnodi wrth i BDC fynd ati fel arfer i baratoi adroddiadau chwarterol am ei waith cyllido.

Ar ôl i'r cwmni fynd i ddwylo gweinyddwyr, cysylltodd tîm risg BDC â thîm y sector adeiladu yn LlC i roi gwybod iddo am y sefyllfa. Mae BDC yn parhau mewn trafodaethau gyda'r gweinyddwyr ynglŷn ag ad-dalu'r benthyciad.

**<u>Dyledion sydd heb eu casglu</u>**

Hoffwn eich cyfeirio at Atodiad 1, sy'n egluro ar ba sail yr hawlir pob dyled.

**<u>Gwrthdaro Buddiannau (Y Gronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd)</u>**

Gofynnodd swyddogion i BDC egluro pa gamau a gymerwyd i ganfod a oedd unrhyw wrthdaro buddiannau mewn perthynas â Woodford a Rheolwr y Gronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd – Arix Capital Management. Mae BDC wedi rhoi'r ymateb isod (cyfieithiad yw hwn), gan ddod i'r casgliad nad oedd unrhyw wrthdaro.

*O ran gwrthdaro posibl mewn perthynas â Woodford Investment Management (WIM), ni wnaeth BDC ddibynnu'n unig ar gadarnhad byr nad oedd unrhyw wrthdaro. Dilynwyd proses fanwl er mwyn ceisio nodi a oedd unrhyw bosibilrwydd o wrthdaro ac edrych ar sut yr oeddid yn ymdrin â hynny. Daethpwyd i'r casgliad mai'r prif wrthdaro posibl fyddai pe byddai WIM, ac yntau'n gyfranddaliwr o bwys i Arix Biosciences plc, yn rhoi pwysau ar ARIX Capital Management, rheolwr y gronfa, i wneud rhywbeth na fyddai er budd pennaf y gronfa. Ar ôl ystyried yn ofalus, daethpwyd i'r casgliad nad oedd unrhyw wrthdaro oherwydd:*

- *Bod y swm llawn o £50 miliwn wedi'i fuddsoddi cyn i ARIX gaffael Rheolwr a Phartner Cyffredinol y Gronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd.*
- *Yr unig achos lle buddsoddodd Arix mewn un o ddaliannau Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru oedd Verona Pharma, nad oedd yn eiddo i WIM. Cafodd y penderfyniad i fuddsoddi ei wneud yn annibynnol gan bwyllgor buddsoddi Arix.*
- *Cefnogodd Arix Simbec Orion yn ddiweddarach, ac nid oedd hynny'n fuddsoddiad yn WIM.*
- *Buddsoddodd Arix £5 miliwn yng Nghronfa Buddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru a buddsoddodd wedyn mewn tri chwmni. Dim ond un o'r cwmnïau hynny (£1 filiwn) oedd â chyd-fuddsoddiad yn WIM. Ni fuddsoddodd Arix ragor yn y cwmni hwnnw.*
- *Ni ddylanwadodd WIM ar Reolwr y Gronfa er mwyn chwyddo prisiadau. Mae'n amheus a fyddai gwneud hynny wedi bod o fudd i WIM oherwydd ei fod ef yn paratoi ei brisiadau ei hun. Ni fyddai o fudd i Reolwr y Gronfa ychwaith oherwydd bod ffioedd yn cael eu dalu iddo ar sail gwerth y buddsoddiad. Caiff ffioedd eu lleihau os yw gwerth buddsoddiadau yn gostwng ond nid ydynt yn cynyddu os yw prisiad yn uwch na gwerth gwreiddiol y buddsoddiad. Ar gyfer y flwyddyn a oedd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2019, gostyngodd reolwr y gronfa werth un buddsoddiad gan WIM yn is o lawer na'r gwerth a ddefnyddiwyd gan WIM, gan leihau ei ffi ei hun drwy wneud hynny, fel ymateb darbodus i'r materion a oedd yn dod i'r amlwg yn WIM.*

*Ar sail y dadansoddiad a wnaed, mae'n anodd gweld sut y gallai'r gyfran o 20% a oedd gan WIM yn Arix ar y pryd fod wedi niweidio buddiannau'r partner cyfyngedig yng Nghronfa*

*Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru ac ymddengys fod y camau a gymerwyd gan reolwr y gronfa yn unol â'r Cytundeb Partneriaeth Cyfyngedig a'r cyfrifoldebau ymddiriedol oddi tano.*

Mae croeso ichi gysylltu â mi os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch.

Yn gywir



**ANDREW SLADE**
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

Swm, math a diben cymorth ariannol Llywodraeth Cymru (boed hynny'n uniongyrchol neu drwy Gyllid Cymru neu'r Banc Datblygu) a gafodd unrhyw gwmnïau a enwyd yn ystod y sesiwn (yng Nghofnod y Trafodion 289-291) cyn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr, a chadarnhad o unrhyw ddyledion sy'n ddyledus (G M Jones, Cuddy group, Jistcourt, GRH Food Company).

| **Enw'r Cwmni** | **Cyllid Cymru/Banc Datblygu Cymru Llywodraeth Cymru** | **Y flwyddyn** | **Math o gymorth** | **Diben y cymorth** | **Swm y cymorth a dalwyd** | **Swm y ddyled sy'n ddyledus** | **Dyled Eithriadol a ddarparwyd yn wreiddiol fel a) Benthyciad, B) Cyllid busnes ad-daladwy neu c) Grant** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GM Jones | Llywodraeth Cymru | 2015-16<br>2016-17<br>2017-18 | Cronfa Twf Economaidd Cymru | Er mwyn symud y busnes i eiddo mwy. | £130,000<br>£213,300<br>£56,700<br>£400,000 | £400,000 | Telerau ac amodau grant (na ellir eu had-dalu) |
| | Banc Datblygu Cymru | | Cyfalaf gweithio wrth dderbyn arian grant | Pontio arian grant Llywodraeth Cymru er mwyn gallu adeiladu eiddo newydd ar gyfer y cleient | £270,000 | Dim | |
| Cuddy Group (Cuddy Re-cycling Ltd) | Llywodraeth Cymru | 2015-16<br>2016-17 | Cronfa Twf Economaidd Cymru | Er mwyn sefydlu ffatri ailgylchu newydd. | £12,775<br>£122,032<br>£134,807 | £134,807 | Telerau ac amodau grant (na ellir eu had-dalu) |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| Cuddy Group (Cuddy Demolition & Dismantling) | | 2008-09 | Cynllun Cyllido yn ôl Disgresiwn | Rhaglen Datblygu'r Gweithlu | £750 | - | |
| | | 2010-11<br>2011-12 | ReAct | Cyflogadwyedd a Sgiliau | £520<br>£1,040<br>£1,560 | - | |
| | | 2013-14 | Rhaglen Recriwtiaid Newydd | Cyflogadwyedd a Sgiliau | £2,550 | - | |
| Jistcourt South Wales Limited | Banc Datblygu Cymru | | Cronfa Fusnes Cymru | Cyfalaf gweithio i gefnogi gwaith presennol a chontractau ar gyfer y dyfodol | £250,000 | £232,000 | Benthyciad - gweler y prif lythyr |
| GRH Food Company | Llywodraeth Cymru | 2015-16 | Cronfa Twf Economaidd Cymru | Gosod system glyfar ar gyfer torri cawsiau | £139,309 | £139,309 | Telerau ac amodau grant (na ellir eu had-dalu) |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2015-16 | Grant Cynhaliaeth Twf Busnes | Datblygu Busnes | £10,738 | - | |
| | | 2010-11 | Cronfa Ddatblygu Bwyd ac Amaeth (Cynllun bellach wedi cau) | Datblygu Busnes BBaCh Bwyd-amaeth | £4,025 | - | |
| | | 2014-15 | Cynllun Cyllido yn ôl Disgresiwn | Rhaglen Datblygu'r Gweithlu | £950 | - | |
| | | 2018-19 | Cronfa Datblygu Busnesau Tramor | Datblygu Allforion | £400 | - | |
| | | 2010-11<br>2011-12<br>2013-14<br>2014-15 | Cynllun Grantiau Prosesu a Marchnata (Cynllun wedi cau) | Er mwyn gwella cystadleurwydd y sector amaethyddiaeth drwy ychwanegu gwerth at gynhyrchion amaethyddol | £62,751<br>£134.638<br>£54,000<br>£49,400<br>£300,789 | £238,038 | Telerau ac amodau grant (na ellir eu had-dalu) |
| | | 2018-19 | Buddsoddiad Busnesau Bwyd | Ail-leoli eiddo gweithgynhyrchu | £1,558,674 | £1,558,674 | Telerau ac amodau grant. Ad-daladwy gan nad oedd y prosiect wedi'i gwblhau. |

**Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol**
**Economy, Skills and Natural Resources Group**

**Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General**

Eitem 3

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

8 Hydref 2019

Annwyl Gadeirydd

**COSTAU PROSIECT YR M4**

Rwy'n ymateb i'ch neges e-bost ar 22 Gorffennaf a'r llythyr dilynol dyddiedig 25 Gorffennaf lle y gwnaethoch ofyn am ragor o wybodaeth ar ôl sesiwn y Pwyllgor ar 15 Gorffennaf. Ymddiheuriadau am yr oedi cyn ateb, ond mae wedi cymryd ychydig o amser i gasglu'r holl fanylion perthnasol ynghyd ar y ffurf y gofynnwyd amdani.

**Defnyddio a chyflwyno data**

Cafodd amcangyfrifon o gostau eu paratoi yn ystod pob cam o'r gwaith o ddatblygu Prosiect yr M4 gan ddefnyddio'r sail brisiau cost a'r ffordd o ymdrin â TAW a oedd yn briodol i bob cam datblygu.

Cafodd y sail brisiau ei chadw ar lefelau 2015 drwy gydol proses yr Ymchwiliad er mwyn hwyluso'r gwaith o gymharu ac asesu newidiadau i gwmpas y prosiect yn ystod yr Ymchwiliad, megis y ffordd ymadael ychwanegol arfaethedig ger Gwasanaethau Magwyr a'r adeiladwaith hwylustod a ddatblygwyd yn Nociau Casnewydd yn ystod yr Ymchwiliad.

Yn unol â chanllawiau 'Llyfr Gwyrdd' y Trysorlys, ni chynhwyswyd TAW yn yr asesiadau yn ystod camau datblygu'r prosiect.

Er mwyn galluogi cymharu â rhaglenni cyfalaf eraill Llywodraeth Cymru, cafodd yr amcangyfrif o gost Prosiect yr M4 ei ddiweddaru yn unol â phrisiau 2019, a chafodd TAW ei chynnwys a chafodd rhai costau a gollwyd eu hepgor, ar gyfer trafodaethau perthnasol y Cabinet ym mis Ebrill eleni.

Mae tabl cymharu costau yn Atodiad A yn crynhoi'r wybodaeth hon, gan roi amcangyfrifon ar gyfer y sail brisiau a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r amcangyfrif gwreiddiol ac wedi'u haddasu yn unol â phrisiau 2019.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE



Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 02920 82 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@llyw.cymru

Mae amcangyfrif gwerthuso 'lefel Cynllun' WeLTAG Cam 1/2, sef £998 miliwn, wedi cael ei ddefnyddio fel y ‘gost sylfaenol' ar gyfer Prosiect yr M4, gan yr ystyrir mai dyna'r ffigur mwyaf priodol ar gyfer cymharu â'r amcangyfrifon diweddarach ar lefel prosiect. Cafodd yr amcangyfrif hwn a'r Achos Busnes cysylltiedig eu cyhoeddi yn 2014 i gyd-fynd â'r penderfyniad strategol i fwrw ymlaen â'r prosiect ac, felly, cynhwysir y ffigur hwn yn y tabl yn Atodiad A. Mae'r adroddiadau hynny ar gael ar y rhyngrwyd drwy ddilyn y dolenni canlynol.

Adroddiad WelTAG:
http://bailey.persona-pi.com/Public-Inquiries/M4-Newport/C%20-%20Core%20Documents/4.%20Scheme%20Development%20and%20Alternatives/4.5.5%20-%20Welsh%20Government%20M4%20Corridor%20around%20Newport%20-%20Motorway%20South%20of%20Newport.%20WelTAG%20Stage%201%20%26%202%20%28Scheme%29%20Appraisal..pdf

Achos Busnes:
http://bailey.persona-pi.com/Public-Inquiries/M4-Newport/C%20-%20Core%20Documents/4.%20Scheme%20Development%20and%20Alternatives/4.5.17%20-%20M4%20Corridor%20around%20Newport%20-%20Motorway%20to%20the%20South%20of%20Newport%20Business%20Case.pdf

Cafodd yr amcangyfrif lefel cynllun hwn ei ddiwygio wedyn i adlewyrchu newidiadau i gwmpas yn ystod y gwaith o ddatblygu'r prosiect, megis gwelliannau i gyffyrdd, mesurau lliniaru amgylcheddol ychwanegol a ddeilliodd o weithgarwch cydgysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru, a'r adeiladwaith hwylustod sylweddol yn nociau Casnewydd.

**Costau datblygu net**

Fel y nodwyd yn y papur tystiolaeth, y gwariant ar brosiect yr M4 o 2013, hyd at y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â gwneud y Gorchmynion statudol oedd £114.109 miliwn, gyda chyllideb ychwanegol ar gyfer 'dirwyn y prosiect i ben' o hyd at £9.2 miliwn. Er y caiff unrhyw gostau dirwyn i ben eu cadw mor isel â phosibl o fewn y gyllideb honno, gan dybio y caiff y swm llawn ei ddefnyddio, cyfanswm y gwariant ar y datblygiad gan gynnwys costau dirwyn i ben fyddai £123 miliwn.

Cyfanswm gwerth prynu'r tir a'r eiddo y mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn berchen arnynt (a gafodd eu prynu ers 2013 a'u cadw ar gyfer y cynllun) yw £3.728 miliwn. Mae incwm rhenti wedi'i hepgor o'r asesiad hwn gan ei fod yn cael ei ddefnyddio i raddau helaeth i dalu costau rheoli ystadau. Mae eiddo a brynwyd yn yr ardal hon mewn perthynas â fersiynau blaenorol o brosiect cyn 2013, y mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn berchen arno, wedi cael ei restru yn Atodiad A ond ei hepgor o'r crynodeb hwn, i'w ystyried ochr yn ochr â chostau datblygu Prosiect yr M4 ar ôl 2013.

Os penderfynir gwaredu’r holl asedau hyn, caiff y gwerth realeiddiadwy gwirioneddol ei bennu gan amodau'r farchnad ar yr adeg gwerthu. Fodd bynnag, drwy ddidynnu gwerth caffael yr asedau hyn o gost y datblygiad cyfan, ynghyd â’r gwariant ar ddirwyn y prosiect i ben, ceir ffigur bras o tua £119 miliwn, y gellid yn rhesymol ei ddiffinio fel y gwariant net ar ddatblygu Prosiect yr M4 a'i ddirwyn i ben, ar yr adeg hon. Byddwn yn rhoi ffigur mwy pendant i'r Pwyllgor maes o law ond, wrth reswm, mae tipyn o amser i fynd cyn y byddwn mewn sefyllfa i wneud hynny.

**Caffael a gwaredu tir**

Bydd Llywodraeth Cymru yn aros am ganlyniad a phenderfyniad y Comisiwn cyn penderfynu ar y ffordd orau o ddiogelu'r llwybr ac ymdrin â'r eiddo y mae Llywodraeth Cymru yn berchen arno.

Os penderfynir nad oes angen eiddo y mae Llywodraeth Cymru yn berchen arno mwyach, caiff ei waredu yn unol â'n gweithdrefnau arferol, sy'n cynnwys ystyried rheolau Crichel Down lle, ymhlith ystyriaethau eraill, mae'r perchennog blaenorol yn cael y cyfle i'w brynu yn ôl.

Atodir tabl diwygiedig (Atodiad B) sy'n egluro'r sefyllfa ynghylch yr eiddo yn llinellau 31–35 o'r tabl gwreiddiol yn y papur tystiolaeth. Gallwn gadarnhau nad yw'r eiddo hwn wedi cael ei werthu a bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn berchen arno.

Ar 2 Awst 2019 gwnaethom dderbyn ymholiad arall gennych ynghylch dyddiadau a gwerthoedd caffael 10 eiddo mewn cysylltiad â Phrosiect yr M4. O'r 10 eiddo hynny, cafodd pump eu caffael yn uniongyrchol gan Adran Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru ac etifeddwyd y pump arall oddi wrth gyrff rhagflaenol megis Awdurdod Datblygu Cymru, a drosglwyddwyd wedyn i Lywodraeth Cymru gyda'r tir a'r eiddo yn cael eu haseinio wedyn i'r Adran Drafnidiaeth.

Mae'n bosibl bod unrhyw anghysondebau rhwng papur tystiolaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019, a data y gallwch chi fod yn cyfeirio atynt (megis y Gofrestrfa Tir) i'w priodoli i gofnodion o wahanol gamau yn y broses gaffael. Nid yw gwahaniaeth o 6-12 mis yn anarferol rhwng y cyfnod y mae Llywodraeth Cymru yn prynu a/neu'n cwblhau'r broses o werthu eiddo â meddiant gwag a'r adeg y caiff y manylion eu diweddaru ar y Gofrestrfa Tir. Bydd swyddogion yn ceisio rhoi eglurder ychwanegol wrth gofnodi 'dyddiad gwerthu' yn y dyfodol fel y dyddiad cwblhau cytundebol.

Rhoddir rhagor o fanylion am y pum eiddo a gaffaelwyd yn uniongyrchol fel a ganlyn, gan ddefnyddio rhifau llinellau Atodiad A i Bapur Tystiolaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019:

Llinell 4 – Woodland House – Mae adolygiad o ddogfennau'r gweithredoedd yn cadarnhau mai mis Awst 2007 (fel y nodir yn y llythyr i'r Pwyllgor dyddiedig 26 Mawrth 2015 gan SAC) oedd y dyddiad cwblhau cytundebol. Hyd 2006, fel y nodir ym Mhapur tystiolaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019 ac mewn cais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn 2014 oedd y dyddiad cytuno i gaffael.

Llinell 6 - Horseshoe Cottage - Cwblhaodd y Swyddfa Gymreig y broses o gaffael yr eiddo yn gytundebol ym mis Awst 1997, fel y nodir ym Mhapur tystiolaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019 ac mewn cais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn 2014. Gallai'r dyddiad a nodir yn llythyr SAC i'r Pwyllgor dyddiedig 26 Mawrth 2015, sef 16 Ion 1998, ymwneud â'r dyddiad y cafodd ei gofrestru yn y Gofrestrfa Tir. Fodd bynnag, dengys ein hadolygiad o'r Gofrestrfa Tir mai'r dyddiad cofrestru yw mis Chwefror 1998.

Llinell 26 – Ysgubor Newydd, Coedcernyw – 31 Mawrth 2004, fel y nodir ym Mhapur tystiolaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019 ac mewn cais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn 2014, yw'r dyddiad a gofnodwyd fel dyddiad cofrestru'r gwerthiant â'r Gofrestrfa Tir. Mae'n debygol bod y dyddiad a nodwyd yn llythyr SAC i'r Pwyllgor dyddiedig 26 Mawrth 2015, sef mis Ionawr 2004, yn ymwneud â'r dyddiad cwblhau cytundebol.

Llinell 28 – The Maerdy, Coedcernyw – Rydym wedi ailedrych ar y manylion a chwblhawyd y broses o werthu'r eiddo hwn ar 4 Tachwedd 2003. Gwnaethom nodi'n flaenorol, yn y Papur tystiolaeth a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019 ac mewn cais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn 2014, y dyddiad 'mis Tachwedd 2011', sy'n anghywir ac ymddengys mai gwall teipograffyddol ydoedd.

Llinell 30 – The Stud Farm, Coedcernyw – deëllir mai mis Mawrth 2003, fel y nodir yn y Papur tystiolaeth a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019 ac mewn cais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn 2014, yw'r dyddiad cwblhau cytundebol. Deëllir mai 26 Mawrth 2004, fel y nodir yn llythyr SAC i'r Pwyllgor dyddiedig 26 Mawrth 2015, yw dyddiad cofrestru'r gwerthiant â'r Gofrestrfa Tir.

Yr eiddo arall y gwnaethoch chi holi yn ei gylch oedd: Berry Hill Farm, Queensway Meadows, Tir ar Tatton Farm, Safle Maerun a hen safle LG Hynix. Cafodd pob un ei gaffael yn y gorffennol, rhyw 40 mlynedd yn ôl, cyn dod o dan Bortffolio Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru. Felly, mae mynediad at gofnodion yn fwy cyfyngedig. Fodd bynnag, rhoddir esboniad pellach fel a ganlyn.

Llinell 18 – Berry Hill Farm – Gallaf gadarnhau mai mis Tachwedd 1996, fel y nodir yn llythyr SAC i'r Pwyllgor dyddiedig 26 Mawrth 2015, yw'r dyddiad yr etifeddodd sefydliad rhagflaenol y tir. Mae mis Ionawr 1980, fel y nodir yn y Papur tystiolaeth a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019 ac mewn cais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn 2014, yn ymwneud â'r broses gaffael wreiddiol gan gorff rhagflaenol.

Llinell 20 – Queensway Meadows – Mae'r ystod o ddyddiadau (Hyd 1980 – Ion 1982) a nodir yn y Papur tystiolaeth dyddiedig mis Gorffennaf 2019 ac mewn cais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn 2014, sy'n ymwneud â Queensway Meadows yn gyson â llythyr SAC i'r Pwyllgor dyddiedig 26 Mawrth 2015. Mae llythyr SAC hefyd yn cynnwys dyddiadau ar gyfer Tatton Farm sy'n gysylltiedig â'r eiddo hwn. Erbyn iddynt gael eu trosglwyddo i'r Adran Drafnidiaeth, roedd y lleiniau hyn wedi cael eu cyfuno ac, felly, dim ond y dyddiad prynu cyntaf a gofnodwyd. Gallwn gadarnhau bod llythyr SAC yn gywir drwy nodi bod rhannau o Tatton Farm wedi cael eu prynu ym mis Mawrth 1994 a mis Mawrth 2000 am gyfanswm o £2.17 miliwn.

Llinell 22 – Safle ym Maerun – Rydym wedi edrych eto a gallwn gadarnhau bod y broses o brynu'r eiddo hwn wedi'i chwblhau ym mis Mawrth 1997, yn hytrach na mis Ebrill fel y nodir yn y Papur tystiolaeth dyddiedig mis Gorffennaf 2019. Ni allwn ddod o hyd i dystiolaeth i gadarnhau'r ffigur o £6,250 a nodir yn llythyr SAC i'r Pwyllgor dyddiedig 26 Mawrth 2015, ond ymddengys fod y gwerth yn gymesur â'r llain.

Llinell 23 - Hen safle LG Hynix - Mae'r Papur tystiolaeth dyddiedig mis Gorffennaf 2019 yn nodi mai gwerth caffael safle Hynix oedd £7m. Gallaf gadarnhau bod y ffigur hwn yn gywir. Nododd llythyr SAC i'r Pwyllgor dyddiedig 26 Mawrth 2015 mai cyfanswm gwerth lleiniau Hynix a P&T oedd £13 miliwn, sy'n gyson â'n cofnodion ar gyfer y llain honno hefyd. Felly, mae'r gwahaniaeth yn y ffigurau a gofnodwyd i'w briodoli i'r tir sy'n gysylltiedig ag Imperial House a

ph'un a ystyrir ei fod yn gysylltiedig â Phrosiect yr M4 ai peidio. Roedd y data yn y cais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn 2014, y mae SAC yn cyfeirio atynt, yn ystyried ei fod yn gysylltiedig â'r Prosiect. Ar y llaw arall, ar adeg cyhoeddi Papur tystiolaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn 2019, nid oedd yn cael ei ystyried yn rhan o Brosiect yr M4 oherwydd y wybodaeth ychwanegol a oedd ar gael am y prosiect bryd hynny. Yn bwysig ddigon, mae'r holl gofnodion yn gyson o ran dyddiadau a gwerthoedd prynu cyfunol.

**Amcangyfrifon o gostau ar gyfer opsiwn amgen 20 a awgrymwyd**

Mae Atodiad C i'r llythyr hwn yn rhoi dadansoddiad manwl o'r amcangyfrif o gost ar gyfer opsiwn amgen Rhif 20 a gafodd ei awgrymu gan y gwrthwynebwyr yn ystod yr Ymchwiliad Cyhoeddus.

Cafodd yr amcangyfrif o'r gost ar adeg yr Ymchwiliad Cyhoeddus ei feincnodi yn erbyn Prosiect Côr y Cewri ar yr A303. Roedd y gwaith twnelu yn cyfrif am tua 50% o gyfanswm cost amcangyfrifedig opsiwn amgen Rhif 20.

Mae Atodiad C hefyd yn cynnwys cymhariaeth â'r astudiaeth achos, '*Infrastructure and Project Authority tunnel benchmarking Case Study: Benchmarking tunnelling costs and production rates in the UK' ("the IPA report")*, a gyhoeddwyd yn fwy diweddar ac y cyfeiriwyd ato yn sesiwn y Pwyllgor ar 15 Gorffennaf 2019.


Cymhariaeth rhwng yr amcangyfrif o'r Amcangyfrif o Gost ar gyfer Opsiwn Amgen 20 a 3 dull meincnodi'r 'Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau'. Yn ôl diamedr, rhydd ffigurau adroddiad yr IPA gost uwch. Yn ôl cyfaint, cyfraddau Opsiwn Amgen Rhif 20 yw'r gost uchaf. Yn ôl cyfaint fesul uned, maent yn debyg.

Rwyf ar ddeall o'ch llythyr dyddiedig 25 Gorffennaf fod yr Adroddiad ar yr Opsiynau Amgen a Awgrymwyd gan y Gwrthwynebwyr bellach wedi'i ddosbarthu i aelodau'r Pwyllgor.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os bydd angen unrhyw wybodaeth arall arnoch.

Gyda dymuniadau gorau.

Yn gywir



**Andrew Slade**
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

**ATODIAD A**

| Prosiect Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd – Tabl Tracio Amcangyfrifon o Gostau Adeiladu a TAW | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Elfen | (1) | (1a) | (2) | (3) | (4) | (4a) |
| | Amcangyfrif Gwerthusiad Lefel Cynllun WelTAG Cam 1 a 2/Amcangyfrif Achos Busnes 2014* | | Amcangyfrif ar ddechrau'r Ymchwiliad | Amcangyfrif a Ddiweddarwyd yn ystod yr Ymchwiliad o ganlyniad i ehangu cwmpas y prosiect h.y. ffyrdd ymuno/ymadael. | Amcangyfrif a Ddiweddarwyd yn ystod yr Ymchwiliad o ganlyniad i ychwanegu Gwaith yn Nociau Casnewydd | (4) diweddarwyd i lywio penderfyniadau statudol |
| Sail Brisiau | 2010 | **2019** | 2015 | 2015 | 2015 | **2019** |
| Dyddiad Cyhoeddi | 2014 | Heb ei gyfrifo'n flaenorol | Rhag 2016 | Maw 2017 | Rhag 2017 | Heb ei gyhoeddi |
| Gwaith rhagarweiniol gan gynnwys Rheoli Traffig | Ni nodwyd manylion y categorïau hyn yn y dadansoddiad | | £212.0m | £213.1m | £213.1m | Ni nodwyd manylion y categorïau hyn yn y dadansoddiad |
| Gwaith ffordd | | | £268.0m | £269.2m | £269.2m | |
| Strwythurau | | | £296.9m | £297.0m | £314.5m | |
| Gwaith tirlunio a gwaith amgylcheddol | | | £44.8m | £44.9m | £44.9m | |
| Gwaith gan awdurdodau eraill | | | £38.3m | £38.8m | £38.8m | |
| Costau Tir ac Iawndal | | | £92.0m | £92.3m | £92.3m | |
| Risg a thuedd optimistiaeth | | | £141.3m | £138.0m | £120.4m | |
| **Amcangyfrif ar gyfer y Prosiect, heb gynnwys TAW** | | | **£1,093.2m** | **£1,093.2m** | **£1,093.2m** | |
| Ailddosbarthu ac ailgyflunio Cyffordd Caerllion (gan gynnwys Tuedd Optimistiaeth) | | | £16.2m | £16.2m | £16.2m | |
| Gwaith yn Nociau Casnewydd | | | - | - | £167.5m | |
| Gwaith yn Nociau Casnewydd – Risg a Chynlluniau wrth Gefn | | | - | - | | |
| **Amcangyfrif ar gyfer y Prosiect, heb gynnwys TAW** | £998m | **£1,161m** | £1,071.2m | £1,109.3m | £1,276.8m | **£1,382m** |
| TAW [cyfrifwyd ar gyfer (4a) a chymhwyswyd y | £132.8m | **£154m** | £142.5m | £147.5m | £170m | **£184m** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| gymhareb at y gweddill] | | | | | | |
| **Amcangyfrif ar gyfer y Prosiect, gan gynnwys TAW na ellir ei hadennill** | £1,131m | **£1,315m** | £1,214m | £1,257m | £1,447m | **£1,566m** |

Nodiadau:

-* Cyfeiriodd llythyr y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus dyddiedig 25/7/19 at yr amcangyfrif yn Adroddiad WelTAG Cam 1 2013, sef £936 miliwn. Y gost fwyaf priodol at ddibenion cymharu yw amcangyfrif Lefel Cynllun WelTAG Cam 1/2 2014 ac amcangyfrif Achos Busnes 2014, sef £998 miliwn.

- Ni chafodd TAW ei chynnwys ar adeg amcangyfrifon (1), (2) a (3). Mae TAW na ellir ei hadennill bellach wedi cael ei chynnwys ar eu cyfer ac ar gyfer (1a) at ddibenion cymharu. Y Cwantwm yw'r ganran a gyfrifwyd ar gyfer (4a), sef 13.3% . Nid oedd union lefel TAW wedi cael ei chytuno â CThEM.
- Mae pob amcangyfrif yn hepgor costau datblygu prosesau statudol er mwyn hwyluso'r broses o gymharu â'r amcangyfrif o gostau penderfyniadau buddsoddi yn (4a), sef £1,566 miliwn, a oedd yn ymwneud â chostau yn y dyfodol yn hytrach na chostau a 'gollwyd'.
- Mae cyfansymiau terfynol wedi'u talgrynnu i 0 lle degol.

**Atodiad B**

## Tabl o'r holl drafodiadau caffael a gwerthu eiddo (mater cyhoeddus):

| Rhif | Disgrifiad o'r Tir | Sail y Prynu/Gwerthu | Dyddiad Prynu | Y Ffigur a Dalwyd (Tir ac Adeiladau) | *Dyddiad Gwerthu | Pris Gwerthu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Eiddo a Gaffaelwyd** | | | | | | |
| 1 | Longhouse Farm, Coedcernyw | Cyflwynwyd **Cais yn ôl Disgresiwn All-lein o dan a.246 (2A)** gan y perchennog yn gofyn am i'r eiddo gael ei brynu. | Tach-06 | £720,000 | Dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru | Dd/G |
| 2 | Tir yn The Stud Farm, Coedcernyw | Cyflwynwyd **Cais yn ôl Disgresiwn All-lein o dan a.246 (2A)** gan y perchennog yn gofyn am i'r eiddo gael ei brynu. | Ion-00 | £315,000 (gan gynnwys rhif 23) | Dd/G – *Gwerthwyd y fferm (gweler 23)* | Dd/G *(gweler 23)* |
| 3 | Undy House, Gwndy, Magwyr | Cyflwynwyd **Hysbysiad Malltod Statudol** gan gynrychiolwyr y perchennog ymadawedig yn gofyn am i'r eiddo gael ei brynu. | Awst-07 | £660,000 | Dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru | Dd/G |
| 4 | Woodland House, Magwyr | Cyflwynwyd **Hysbysiad Malltod Statudol** gan y perchennog yn gofyn am i'r eiddo gael ei brynu. | Awst-07 | £1,107,000 | Dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru | Dd/G |
| 5 | Old Cottage, Knollbury, Magwyr | Cyflwynwyd **Cais yn ôl Disgresiwn o dan a.248** gan y perchennog yn gofyn am i'r eiddo gael ei brynu. | Maw 95 | £130,000 | Dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru | Dd/G |
| 6 | Horseshoe Cottage, Knollbury, Magwyr | Cyflwynwyd **Cais yn ôl Disgresiwn All-lein o dan a.246 (2A)** gan y perchennog yn gofyn am i'r eiddo gael ei brynu. | Awst-97 | £132,500 | Dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru | Dd/G |
| 7 | Barecroft House, Barecroft Common, Magwyr | Cyflwynwyd **Hysbysiad Malltod Statudol** gan y perchennog yn gofyn am i'r eiddo gael ei brynu. | Mai-96 | £158,500 | Dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru | Dd/G |
| 8 | Cae Glas, Nash Road, Casnewydd. | Cyflwynwyd **Hysbysiad Malltod Statudol** gan y perchennog yn gofyn am i'r eiddo gael ei brynu. | Rhag 06 | £300,000 (gan gynnwys yr isod) | Dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru | Dd/G |
| 8 | Rhandy yng Nghae Glas, Nash Road, Newport | Cyflwynwyd **Hysbysiad Malltod Statudol** gan y perchennog yn gofyn am i'r eiddo gael ei brynu. | Rhag 06 | Rhan o'r uchod | Dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru | Dd/G |
| 9 | Greenfield House, Nash Road, Casnewydd | Cyflwynwyd **Hysbysiad Malltod Statudol** gan y perchennog yn gofyn am i'r eiddo gael ei brynu. | Maw-07 | £300,000 | Dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru | Dd/G |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 10 | The Conifers, Coedcernyw | Cyflwynwyd **Hysbysiad Malltod Statudol** gan y perchennog yn gofyn am i'r eiddo gael ei brynu. | Ebr-15 | £725,000 | Dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru | Dd/G |
| 11 | White Cottage, Coedcernyw | Cyflwynwyd **Hysbysiad Malltod Statudol** gan y perchennog yn gofyn am i'r eiddo gael ei brynu. | Rhag-15 | £555,000 | Dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru | Dd/G |
| 12 | San Remo, Coedcernyw | Cyflwynwyd **Hysbysiad Malltod Statudol** gan y perchennog yn gofyn am i'r eiddo gael ei brynu. | Ebr-16 | £350,000 | Dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru | Dd/G |
| 13 | The Glen, Coedcernyw | Cyflwynwyd **Hysbysiad Malltod Statudol** gan y perchennog yn gofyn am i'r eiddo gael ei brynu. | Hyd-15 | £430,000 | Dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru | Dd/G |
| 14 | Spring Cottage, Coedcernyw | Cyflwynwyd **Hysbysiad Malltod Statudol** gan y perchennog yn gofyn am i'r eiddo gael ei brynu. | Meh-16 | £355,000 | Dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru | Dd/G |
| 15 | Quarry Cottage, Coedcernyw | Cyflwynwyd **Hysbysiad Malltod Statudol** gan y perchennog yn gofyn am i'r eiddo gael ei brynu. | Meh-17 | £453,000 | Dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru | Dd/G |
| 16 | Danygraig, Coedcernyw | Cyflwynwyd **Cais yn ôl Disgresiwn All-lein o dan a.246 (2A)** gan y perchennog yn gofyn am i'r eiddo gael ei brynu. | Awst-19 | £495,000 | Dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru | Dd/G |
| 17 | Dunline, Knollbury | Cyflwynwyd **Hysbysiad Malltod Statudol** gan y perchennog yn gofyn am i'r eiddo gael ei brynu. | Maw-17 | £365,000 | Dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru | Dd/G |
| 18 | Coedkernew House, Coedcernyw | Cyflwynwyd **Cais yn ôl Disgresiwn All-lein o dan a.246 (2A)** gan y perchennog yn gofyn am i'r eiddo gael ei brynu. | Ebr-19 | £575,000 | Dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru | Dd/G |
| 19 | The Croft, Coedcernyw | Cyflwynwyd **Hysbysiad Malltod Statudol** gan y perchennog yn gofyn am i'r eiddo gael ei brynu. | Ebr-19 | £400,000 | Dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru | Dd/G |
| 20 | Little Orchard, Coedcernyw | Cyflwynwyd **Cais yn ôl Disgresiwn All-lein o dan a.246 (2A)** gan y perchennog yn gofyn am i'r eiddo gael ei brynu. | Rhag-18 | £400,000 | Dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru | Dd/G |
| 21 | Old Court Farm, Rogiet | Cyflwynwyd **Hysbysiad Malltod Statudol** gan y perchennog yn gofyn am i'r eiddo gael ei brynu. | Maw-18 | £2,354,617 | Dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru | Dd/G |
| 22 | Court Farm, Rogiet | Cyflwynwyd **Hysbysiad Malltod Statudol** gan y perchennog yn gofyn am i'r eiddo gael ei brynu. | Mai-18 | £1,714,085 | Dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru | Dd/G |
| **Eiddo a etifeddwyd oddi wrth Gorff Rhagflaenol** | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 23 | Berry Hill Farm | Tir a etifeddwyd gan Lywodraeth Cymru oddi wrth gorff rhagflaenol. | Ion-80 | £1,350,000 | Dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru | Dd/G |
| 24 | Gwynllŵg, Casnewydd | Tir a etifeddwyd gan Lywodraeth Cymru oddi wrth gorff rhagflaenol. | Maw-97 | £235,000 | Dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru | Dd/G |
| 25 | Queensway Meadows, Casnewydd | Tir a etifeddwyd gan Lywodraeth Cymru oddi wrth gorff rhagflaenol. | Hyd 1980 – Ion 1982 | | Dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru | Dd/G |
| 26 | Tir ar Tatton Farm | Tir a etifeddwyd gan Lywodraeth Cymru oddi wrth gorff rhagflaenol. | Mai-00 | £630,000 | Dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru | Dd/G |
| 27 | Tir ym Maerun | Tir a etifeddwyd gan Lywodraeth Cymru oddi wrth gorff rhagflaenol. | Ebr-97 | | Dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru | Dd/G |
| 28 | Hen Safle LG Hynix | Tir a etifeddwyd gan Lywodraeth Cymru oddi wrth gorff rhagflaenol. | Medi-04 | £7,000,000 | Dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru | Dd/G |
| ***Eiddo a Gaffaelwyd ac a Werthwyd Wedi Hynny** | | | | | | |
| 29 | Lower Lakes Farm, Casnewydd | Cyflwynwyd **Cais yn ôl Disgresiwn o dan a.248** gan y perchennog yn gofyn am i'r eiddo gael ei brynu. | Ion-95 | £170,000 | Ion-97 | £135,000 |
| 30 | Pye Corner House, Nash | Cyflwynwyd **Cais yn ôl Disgresiwn All-lein o dan a.246 (2A)** gan y perchennog yn gofyn am i'r eiddo gael ei brynu. | Ebr-96 | £120,000 | Ion-02 | £178,000 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 31 | Ysgubor Newydd, Coedcernyw | Cyflwynwyd **Hysbysiad Malltod Statudol** gan y perchennog yn gofyn am i'r eiddo gael ei brynu. | Medi-96 | £220,000 | Maw-04 | £361,000 |
| 32 | Moorbarn, Nash | Cyflwynwyd **Cais yn ôl Disgresiwn All-lein o dan a.246 (2A)** gan y perchennog yn gofyn am i'r eiddo gael ei brynu. | Rhag-96 | £192,500 | Gorff-97 | £167,000 |
| 33 | The Maerdy, Coedcernyw | Cyflwynwyd **Cais yn ôl Disgresiwn All-lein o dan a.246 (2A)** gan y perchennog yn gofyn am i'r eiddo gael ei brynu. | Ebr-03 | £680,000 | Tach-11 | £605,000 |
| 34 | Rose Cottage, Knollbury | Cyflwynwyd **Cais i Brynu yn ôl Disgresiwn o dan a.246 (2A)** gan y perchennog yn gofyn am i'r eiddo gael ei brynu. | Mai-10 | £360,000 | Gorff-11 | £244,735 |
| 35 | The Stud Farm, Coedcernyw | Cyflwynwyd **Cais yn ôl Disgresiwn All-lein o dan a.246 (2A)** gan y perchennog yn gofyn am i'r eiddo gael ei brynu. | Ion-00 | £315,000 (roedd yn rhan o rif 2) | Maw 2003 – *Gyda rhywfaint o dir yn cael ei gadw ar gyfer cynigion yn ymwneud â'r M4 (rhif 2).* | £450,000 |
| | | | **Cyfanswm** | **£24.2m** | **Cyfanswm** | **£2.1m** |

## Atodiad C

**Opsiwn Amgen – Twnnel: Gwybodaeth Atodol**

1 Dengys y tabl isod mai'r amcangyfrif o gost y gwaith twnelu ar ei ben ei hun yw £4,947 miliwn, ac felly tua 50%. Mae hyn ar gyfer tri thwnnel; dau â diamedr o 15m metr, 16,358m o hyd, yn ogystal â thwnnel peilot â diamedr o 8m. Hefyd, byddai angen 851m o byrth twnnel, sy'n golygu mai cyfanswm hyd y twnelau a'r pyrth fyddai 17,209m, allan o 24,000m, sef cyfanswm hyd y llwybr. Yn ychwanegol at gost uniongyrchol y gwaith twnelu, byddai costau staff a chostau yn gysylltiedig â'r gwaith rhagarweiniol, yn ogystal â lwfansau ar gyfer y risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwaith. Gan mai amcangyfrif cyllidebol lefel uchel heb unrhyw gynllun diffiniedig yw hwn, cafodd y risg i'r prosiect a'r duedd optimistiaeth eu pennu yn unol â hynny.

**Tabl 1 – Dadansoddiad o'r Amcangyfrif o Gost Opsiwn Amgen 20.**

| | **Costau'r Twnelau £m** | **Costau seilwaith y tu allan i'r twnelau £m** | **Cyfanswm yr Amcangyfrif £m** |
|---|---|---|---|
| Nid yw costau gwaith rhagarweiniol, costau staff na chostau adeiladwaith hwylustod ac ati wedi'u cynnwys yng ngwaith meincnodi'r IPA | 1,176 | 119 | 1,295 |
| Costau adeiladu | 4,957 | 219 | 5,176 |
| Risgiau contractwyr | 794 | 39 | 833 |
| **Cyfanswm y Gost Adeiladu** | **6,928** | **377** | **7,304** |
| Goruchwylio cleientiaid a chostau datblygu eraill | 323 | 48 | 371 |
| Costau Tir ac Iawndal | 15 | 50 | 65 |
| Risg i'r Prosiect a Thuedd Optimistiaeth | 2,053 | 27 | 2,080 |
| **Amcangyfrif ar gyfer y Prosiect, heb gynnwys TAW na Chwyddiant** | **9,319** | **501** | **9,820** |

2 Cafodd yr astudiaeth achos 'Infrastructure and Project Authority tunnel benchmarking Case Study: Benchmarking tunnelling costs and production rates in the UK' ei chyhoeddi gyntaf ym mis Rhagfyr 2018, a'i diwygio ym mis Mawrth 2019, ac felly nid oedd ar gael adeg yr asesiad cyllidebol ar gyfer opsiwn amgen y twnnel a gynhaliwyd yn gynnar yn 2017. Daeth y gost sylfaenol a ddefnyddiwyd wrth asesu costau'r gwaith twnelu o'r prisio yn nhendr y contractwr ar gyfer twnnel 12 metr arfaethedig yr A303 yn ardal Côr y Cewri. Cafodd cost fesul metr y twnnel hwn ei haddasu ar gyfer meintiau'r twnelau roedd eu hangen ar gyfer yr opsiwn amgen hwn.

3 Mae 'Infrastructure and Project Authority tunnel benchmarking Case Study: Benchmarking tunnelling costs and production rates in the UK' yn meincnodi cost twnelau trafnidiaeth mewn tair ffordd

- Y gost yn ôl diamedr y twnnel
- Y gost yn ôl Cyfaint y twnnel
- Y gost fesul uned o gyfaint (£m/KM/M2 o wyneb)

Yn ystod y gwaith meincnodi cafodd wyth twnnel trafnidiaeth â diamedr rhwng 5.5m a 11.5m eu dadansoddi ac, felly, nid yw'r data yn y gwaith meincnodi yn cynnwys diamedr y ddau brif dwnnel na chyfaint y deunydd y byddai angen ei gloddio ar gyfer yr M4. Isod ceir tabl sy'n cymharu twnelau'r M4 â'r tair sail gostau a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwaith meincnodi.

Mae'r gwaith meincnodi ond yn cynnwys costau twnelu uniongyrchol ac nid yw'n cynnwys y gwaith rhagarweiniol na risg ac ati.

**Tabl 2 – Cymharu'r Amcangyfrif o Gost Opsiwn Amgen 20 â Chyfraddau'r IPA**

| Disgrifiad | Amcangyfrif o Gost Prosiect yr M4 – Opsiwn Amgen 20 £m | Ffigur Cyfatebol Gwaith Meincnodi'r IPA £m | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| **Cost £m fesul km yn ôl diamedr y twnnel** | | | |
| Twnelau â diamedr o 15 medr ar gyfer Opsiwn Amgen 20 | 110 | 191 | Nid oes twnnel â diamedr o 15 medr yng ngwaith meincnodi'r IPA, lle mai diamedr y twnnel mwyaf oedd 11.5m. Mae'r twnnel â diamedr o 15m wedi cael ei gyfrifo ar sail pro rata o dwnnel 11.5m yr IPA (£112m). |
| Twnnel â diamedr o 8m ar gyfer Opsiwn Amgen 20 | 31 | 15-33 | Cafodd cost Opsiwn Amgen 20 ei gyfrifo ar sail pro rata o'r gyfradd uchod ar gyfer diamedr o 15m. Diamedr cyfatebol yr IPA yw 8.1m. |
| **Cost y prosiect wedi'i chyfrifo ar sail cyfaint y twnelau** | | | |
| Twnnel â diamedr o 8m ar gyfer Opsiwn Amgen 20, wedi'i gyfrifo ar sail pro rata o dwnnel â diamedr o 15m, 16.4 km o hyd, â chyfaint o 823,000m$^3$ | 512 | 350 | |
| Twnnel â diamedr o 15m ar gyfer Opsiwn Amgen 20, 16.4km o hyd, a chyfaint o 2,891,000m$^3$ | 1,799 | 1,337 | Nid yw Graff yr IPA ond yn dangos y llinell dueddiadau ar gyfer cyfeintiau hyd at 800,000m$^3$, gyda chost o tua £370 miliwn ar yr adeg hon os ystyrir y llinell dueddiadau ar gyfer cyfaint ychwanegol hyd at 2,891,000m$^3$ ar sail pro rata. |
| **Cost fesul uned o gyfaint (£m/km/m$^2$ ar yr wyneb) wedi'i chyfrifo ar sail hyd y twnnel ar gyfer twnnel 16km o hyd** | | | |
| Twnnel â diamedr o 8m ar gyfer Opsiwn Amgen | 0.62 | 0.58 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 20, wedi'i gyfrifo ar sail pro rata o dwnnel â diamedr o 15m | | | |
| Twnnel â diamedr o 15m ar gyfer Opsiwn Amgen 20 | 0.62 | 0.58 | |

# Eitem 4

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

24 Hydref 2019

Annwyl Mr Ramsay,

**CRAFFU AR GYFRIFON 2018-19**
**LLYWODRAETH CYMRU - CRAFFU CYFFREDINOL AR GYFRIFON**

Ysgrifennaf atoch yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2019, pan cytunais i ddarparu rhagor o wybodaeth am fenthyciadau a buddsoddiadau a ddyfarnwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2018-19.

Mae'r Datganiad wedi'i Gydgrynhoi o Liferoedd Arian Parod ar dudalen 86 o'r Cyfrifon Cyfunol yn nodi bod gwerth £934m o fenthyciadau a buddsoddiadau craidd Llywodraeth Cymru wedi'u dyfarnu yn 2018-19.

Mae'r tabl yn Atodiad 1 yn rhoi dadansoddiad o'r ffigwr hwn.

Yn gywir,

Shan Morgan

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

Atodiad 1

| | **£ miliwn** | |
|---|---|---|
| Benthyciadau i Fyfyrwyr a ddyfarnwyd | 596.7 | |
| Benthyciadau a buddsoddiadau a ddyfarnwyd i Fanc Datblygu Cymru | 238.8 | |
| Benthyciadau Tir ar gyfer Cynlluniau Tai | 32.9 | Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yw'r rhai sy'n derbyn |
| Twf Gwyrdd Cymru (FTR a Salix) | 20.3 | Mae Salix yn gweinyddu'r cyllid ar gyfer prosiectau effeithlonrwydd ynni y sector cyhoeddus |
| Cyfalaf Difidend Cyhoeddus a ddyfarnwyd i Ymddiriedolaethau'r GIG | 16.6 | |
| Benthyciadau a Buddsoddiadau Busnes unigol > £0.5m | 14.8 | Benthyciadau a buddsoddiadau i 6 busnes sector preifat yn amrywio o £0.5m i £5.6m |
| Benthyciadau i Adfywio Canol Trefi | 6.0 | Caiff y benthyciad ei ddyfarnu i'r awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan, a'i weinyddu ganddynt, ond gall ymgeiswyr cymwys gynnwys cymdeithasau tai cymdeithasol, datblygwyr tai, landlordiaid preifat a busnesau |
| Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio | 4.8 | Benthyciadau i awdurdodau lleol sy'n gallu gweithio gyda sefydliadau partner i ddatblygu prosiectau adfywio |
| Benthyciadau Buddsoddi i Arbed | 1.7 | Darparu cyllid tymor byr i sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus i'w helpu i fod yn fwy effeithlon ac effeithiol. |
| Benthyciadau a Buddsoddiadau Busnes unigol < £0.5m | 0.8 | Cyllid ad-daladwy i 10 o fusnesau'r sector preifat, yn bennaf BBaChau, yn amrywio o £35,000 i £163,000 |
| Cynllun Canol Abertawe | 0.7 | Cyngor Dinas Abertawe yw'r derbynnydd |
| Undebau Credyd | 0.5 | |
| **Cyfanswm** | **934.6** | |
| *Addasiadau talgrynnu wrth baratoi'r cyfrifon* | *-0.6* | |
| *Llif Arian Cyfrif Cyfunol Llywodraeth Cymru - Rhoi benthyciadau a buddsoddiadau* | *934.0* | |

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr N Ramsay
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

24 Hydref 2019

Annwyl Mr Ramsay,

**CRAFFU AR GYFRIFON 2018-19 GAN Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS**

Yn y sesiwn PAC ar 7 Hydref, cytunais i ddarparu rhagor o wybodaeth am rolau ychwanegol y Cyfarwyddwyr Anweithredol Llywodraeth Cymru y tu hwnt i gwmpas eu rolau Bwrdd ac i nodi'r taliadau ychwanegol a wnaed i Gyfarwyddwyr Anweithredol yn 2018-19.

**ROLAU YCHWANEGOL**

Ni chaiff Cyfarwyddwyr Anweithredol eu comisiynu i wneud gwaith newydd y tu hwnt i gwmpas eu rolau Anweithredol ar y Bwrdd. Bydd unrhyw waith sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd yn cael ei gomisiynu gennyf i neu'r Bwrdd, a dim ond lle mae'n glir nad oes gwrthdaro buddiannau neu lle y gellir rheoli gwrthdaro buddiannau. Mae ysgrifenyddiaeth y Bwrdd yn cadw cofrestr fanwl o fuddiannau preifat aelodau'r Bwrdd, sy'n cael ei diweddaru'n flynyddol.

Mae pob Cyfarwyddwyr Anweithredol wedi cytuno i'r amodau a nodir yng Nghylch Gorchwyl y Bwrdd gan gynnwys y Cod Ymddygiad, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gadw at Egwyddorion Nolan.

Rwyf felly'n hyderus y bydd y system sydd gennym ar waith yn sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau, ac yn sicrhau bod y Cyfarwyddwyr Anweithredol yn gallu darparu goruchwyliaeth a her annibynnol i'r Bwrdd.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**TALIADAU YCHWANEGOL**

Cafodd Ellen Donovan £694 ychwanegol ym mis Mai 2018 ar gyfer gwaith a gomisiynwyd ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor Archwilio a Risg yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol fel rhan o gau'r hen Bwyllgor Archwilio a Risg cyn i'r un newydd ddechrau.

Derbyniodd Ann Keane £3,675 rhwng mis Tachwedd 2016 a mis Mehefin 2018 am waith a gomisiynwyd ar yr Academi Arweinyddiaeth Addysgol Cenedlaethol a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2018; a £987 am eistedd ar y Grŵp Cynghori Annibynnol ar gyfer yr Is-adran Diwygio Cwricwlwm yn Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, penodwyd Ann i'r grŵp hwn ym mis Awst 2015.

Daeth cyfnod Elan Closs Stephens gyda'r Bwrdd i ben ar 30 Ebrill 2019. Hi yw Cadeirydd y Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus a thalwyd £694 iddi am ddau ddiwrnod o waith ar 5 Mawrth 2018 a 31 Ionawr 2019.


**TROSOLWG**

Nodwyd taliad dyblyg o £1,041 (gros) ar gyfer ffioedd Cyfarwyddwyr Anweithredol misol James Turner ac Elan Closs Stephens yn ystod y flwyddyn.

Hysbyswyd y ddau Gyfarwyddwr Anweithredol o'r gordaliad ac rydym wedi ymddiheuro iddynt am y camgymeriad. Mae'r gordaliad wedi'i adfer gan un Cyfarwyddwr Anweithredol ac mae'r taliad arall yn y broses o gael ei adfer.

Mae rheolaethau dros y trefniadau misol ar gyfer taliadau Cyfarwyddwr Anweithredol yn cael eu hadolygu er mwyn lleihau achosion o'r fath yn y dyfodol a bydd y gwelliannau a nodwyd yn cael eu gweithredu erbyn diwedd mis Hydref 2019.

Yn gywir,



**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

24 Hydref 2019

Annwyl Mr Ramsay,

**CRAFFU AR GYFRIFON 2018-19**
**LLYWODRAETH CYMRU - CRAFFU CYFFREDINOL AR GYFRIFON**

Ysgrifennaf atoch yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2019, pan holodd Jenny Rathbone AC am danwariant y Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Addewais ymateb yn ysgrifenedig er mwyn sicrhau'r ffigurau a'r manylion cywir.

Mae'r Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn darparu cyllid grant o hyd at 100%, a gall pob un o'r 22 o awdurdodau lleol ei ddefnyddio i ddatblygu safleoedd newydd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, ac ymestyn ac ailwampio safleoedd presennol yn unol â'r Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr.

Mae nifer o resymau pam nad yw'r gyllideb wedi cael ei gwario yn ôl y disgwyl. Y prif resymau am hyn yw oedi gyda cheisiadau cynllunio, neu oherwydd eu bod wedi cael eu gwrthod, a bod lleoliadau addas wedi cael eu nodi ar gyfer safleoedd newydd.

Ym mis Ebrill 2019, tynnodd Swyddogion Llywodraeth Cymru sylw'r Dirprwy Weinidog a’r Prif Chwip at y ffaith bod rhai Awdurdodau Lleol yn dal heb wneud cais am Grant Cyfalaf Safleoedd fel rhagolygon yn dilyn yr Asesiadau Llety a gyflwynwyd yn 2016. O ganlyniad, ysgrifennodd y Dirprwy Weinidog a’r Prif Chwip at Arweinwyr yr Awdurdodau Lleol hynny i'w hatgoffa bod angen defnyddio'r grant safleoedd cyn 2021, a'u hannog i fanteisio arno. Roedd y llythyr hefyd yn atgoffa Arweinwyr o ddyletswyddau Awdurdodau Lleol i ddarparu safleoedd cynaliadwy i Sipsiwn a Theithwyr.

Mae swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda'r holl Awdurdodau Lleol ledled Cymru i sicrhau eu bod yn cyrraedd eu targedau o fewn eu Hasesiadau Llety unigol, ac i'w hannog i ddefnyddio'r Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.

Yn gywir,

Shan Morgan
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel/Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

**Cyfeirnod:** AC/164/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 24 Hydref 2019

Annwyl Nick

## Adrodd yn y Sector Cyhoeddus - y sefyllfa yn Seland Newydd

Pan oedd y Pwyllgor yn ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd hyd yma yn ei ymchwiliad i adroddiad blynyddol a chyfrifon 2018-19 Llywodraeth Cymru, cynigiais roi peth gwybodaeth i'r aelodau am y dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Seland Newydd o gynnal adrodd allanol. A derbyn ein tebygrwydd amlwg i'r Alban, rwyf hefyd yn cyffwrdd â datblygiadau diweddar yn y fan honno o ran adrodd ariannol.

Mae'r egwyddor o adrodd yn agored a thryloyw ar gynlluniau a gweithgareddau'r llywodraeth wedi ei hen sefydlu yn Seland Newydd. 30 mlynedd yn ôl daeth i fod y wlad gyntaf yn y byd i symud o gyfrifyddu seiliedig ar arian parod i gyfrifyddu ar sail croniadau ar gyfer ei gweithrediadau sector cyhoeddus, dan ei deddf oedd yn torri tir newydd, sef Deddf Arian Cyhoeddus 1989.

Cychwynnodd Llywodraeth y DU, ynghyd â'r gweinyddiaethau datganoledig, i lawr yr un llwybr ddeng mlynedd yn ddiweddarach dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, ond mae'n deg dweud bod arferion adrodd presennol yn y sector cyhoeddus yn Seland Newydd yn parhau i fod ar y blaen i'r DU a chenhedloedd datblygedig eraill hefyd o gwmpas y byd.

Fel dim ond un esiampl o hyn: cyhoeddodd Llywodraeth Seland Newydd ei set gyntaf o gyfrifon y Llywodraeth gyfan yn ôl yn 1991; mae Llywodraeth y DU wedi gwneud hynny bob blwyddyn ers 2011. Ymrwymodd Llywodraeth yr Alban yn 2016 i wneud hynny (gan ddisgwyl cymryd drosodd ei phwerau cyllidol a'i phwerau benthyca newydd) ac ailgadarnhaodd y bwriad hwnnw i Bwyllgor Craffu Archwilio Cyhoeddus ac Ôl-ddeddfwriaethol Senedd yr Alban ym mis Tachwedd 2018.

Mae Llywodraeth Seland Newydd hefyd yn cyhoeddi cyfrifon misol, sy'n rhoi gwybodaeth, bron mewn amser real, i'w Senedd ac i'r cyhoedd am ei gwariant o fewn y flwyddyn.

Yr hyn sydd gan Lywodraeth Seland Newydd sy'n cyfateb agosaf i adroddiad blynyddol a chyfrifon Llywodraeth Cymru yw Adroddiad Blynyddol y Trysorlys a Datganiadau Ariannol Llywodraeth Seland Newydd. Cyhoeddwyd eu

hadroddiadau diweddaraf, am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2019, yn gynnar ym mis Hydref. Yn neilltuol, mae Adroddiad Blynyddol y Trysorlys yn gosod amrywiaeth eang o wybodaeth allan i'r darllenydd, wedi ei chyflwyno mewn arddull glir a diddorol, ac mae'n cynnwys gwybodaeth helaeth am dargedau, perfformiad a chanlyniadau.

Mae adrannau eraill o Lywodraeth Seland Newydd yn cynhyrchu eu hadroddiadau blynyddol eu hunain, megis ar gyfer Gweinyddiaeth Datblygiad Cymdeithasol a'r Weinyddiaeth Addysg. O'u cymryd gyda'r cyfrifon blynyddol, mae'r adroddiadau adrannol hyn gyda'i gilydd yn rhoi darlun cynhwysfawr o gynnydd, cyflawniadau a llwyddiannau.

Yn fwyaf diweddar, mae Llywodraeth Seland Newydd wedi arloesi gyda chyllidebu llesiant ac, ym mis Mai 2019, gosododd hyn wrth galon ei chynllunio cyllid cyhoeddus yng Nghyllideb Llesiant gyntaf y byd. Mae Cymru, wrth gwrs, ar y blaen o ran meddwl yn y maes hwn, a derbyn *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*, oedd yn torri tir newydd. Tra mae ein dull ni yng Nghymru wedi bod yn ddeddfwriaethol, yn Seland Newydd gosodir mwy o bwys ar benderfyniadau cyllidebol ac atebolrwydd i yrru newid yn ei flaen. Rhydd dogfen cyllideb llesiant Seland Newydd esboniad clir o'r gwariant blynyddol a neilltuir i bob un o flaenoriaethau datganedig y llywodraeth a'r dangosyddion sydd i gael eu defnyddio i asesu cynnydd yn eu herbyn. Yn bwysig, mae hefyd yn cynnwys Strategaeth Gyllidol, yn egluro rhagamcanion tymor canol trethiant, benthyciadau a gwariant, o fewn cyd-destun amcanion cyllidol tymor hir y llywodraeth.

Ym mis Mai eleni, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ail argraffiad o'i strategaeth ariannol tymor canol bum-mlynedd hi ei hun, Scotland's Fiscal Outlook. Mae'r strategaeth flynyddol honno yn tarddu o argymhelliad yn 2017 gan Grŵp Adolygu Proses Cyllideb Senedd yr Alban. Hyd yma, nid oes cyhoeddiad cyfatebol yn ymdrin â materion ariannol cyhoeddus Cymru. Er bod hon yn un esiampl lle mae'r Alban ar y blaen i ni, mae ganddynt hwythau hefyd beth ffordd i fynd yn nhermau tryloywder ariannol cynhwysfawr. Mae'r ymdriniaeth ddiweddaraf ar Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth yr Alban, gan Archwilydd Cyffredinol yr Alban, yn tynnu sylw at hyn:

*"The Scottish Government needs to improve the quality of financial reporting to better support Parliament. In May 2019, the Scottish Government published its second medium-term financial strategy, but it does not reflect all the basic components of a medium-term financial plan. It does not include indicative spending plans or priorities, or links to outcomes… In addition, the government has still not fulfilled its commitment to publish a consolidated account covering the whole devolved public sector in Scotland. This would fill an important gap and improve strategic public financial management, support Parliamentary scrutiny and enable better decision-making[1]."*

---

[1] The 2018/19 audit of the Scottish Government Consolidated Accounts

Mae hyn yn crynhoi'n dwt rai o'r camau allweddol y mae angen i ni eu cymryd yng Nghymru os ydym i arddangos arfer gorau o ran cyllidebu ariannol ac adrodd. Ac mae'r rhain yn eu tro yn adlewyrchu llawer o'r argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Ariannol y Cynulliad Cenedlaethol yn y Cynulliad blaenorol, yn ei ddau adroddiad ar *Arferion Gorau o ran y Gyllideb*[2]. Canolbwyntiai adroddiadau'r Pwyllgor ar gamau i gryfhau trefniadau ariannol yng ngoleuni trosglwyddo cyfrifoldebau cyllidol i'r Cynulliad. Gwnaeth argymhellion, er enghraifft, gyda golwg ar yr angen i alinio cyllidebau â dangosyddion a mesurau cyflawni, mantais cael Cyfrif Llywodraeth Gyfan Cymru a phwysigrwydd cyhoeddi cynlluniau a rhagolygon cyllid cyhoeddus blaengar. Mae'r rhain yr un mor berthnasol heddiw ag yr oeddent yr adeg honno.

Gobeithiaf y bydd y deunydd hwn o gymorth i'r Pwyllgor gyda'i ymchwiliad sydd yn parhau.

Yn gywir



**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

---

[2] Y Pwyllgor Cyllid - Adroddiadau Cyflawn - y Pedwerydd Cynulliad